*CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL*

**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llandysul a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul a thrwy gyfrwng Zoom, ar 20fed Mai 2024**

**Minutes of Annual Meeting of Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul and via Zoom on 20th May 2024**

**Yn Bresennol/Present**:
Cynghorwyr/Cllrs Beth Davies, Douglas Davies, Heddwen Davies, Peter Evans, Gethin Jones, Sue Lloyd, Keith Evans, Eileen Curry, Eifion Rees a/and Chynghorwyr Sir Keith Evans De Llandysul, a Maldwyn Lewis Gogledd Llandysul & Troedyraur (Gadawodd Cynghorydd Sue Lloyd y cyfarfod ar ôl ychydig gan ei bod yn cael anhawster dilyn y sgwrs gan nad oedd cyfieithydd yn bresennol oherwydd bod dyddiad y cyfarfod wedi newid. / Cllr Sue Lloyd left the meeting after a period as she found it difficult to follow the conversation as there was no translator present due to the change in date.)

Isod, gweler rhestr o'r troseddau a adroddwyd yn wardiau tref Llandysul, Pontsiân a Chapel Dewi. Cafwyd adroddiad gan PCSO Anwen Davies yn rhoi Diweddariad am y Troseddau a'r Digwyddiadau yn ardal y Cyngor. Estynnodd yr aelodau eu diolch am yr adroddiad.
Below is a list of crimes that were reported within Llandysul town, Pontsian and Capel Dewi wards. A report was received from PCSO Anwen Davies providing a Crime and Incident Update for the Councils area. Members extended their thanks and gratitude for the report.

**Trosedd-Aflonyddu/Crime - Harrasment - 5**
Roedd pob parti yn adnabod ei gilydd / All parties known to each other
**Trosedd – Domestig / Crime – Domestics – 6**
Roedd pob parti yn adnabod ei gilydd / All parties known to each other
**Trosedd Dwyn / Crime Theft – 6**
1 adroddiad am ddwyn Offer trydanol o eiddo rhent / 1 report of theft of electrical Equipment from a rental property
1 adroddiad am ddwyn offer pysgota môr / 1 report of theft of sea fishing equipment
3 adroddiad am ddwyn erialau ceir / 3 report of theft of car ariels
1 adroddiad am fethu talu am wasanaeth tacsi / 1 report of non-payment of taxi service
**Trosedd Ymosod /Crime Assault -1**
Roedd y ddau barti yn adnabod ei gilydd / Both parties known to each other
**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol / Anti–Social Behaviour - 1 Adroddiad/Report**
1 adroddiad am gerddoriaeth uchel / 1 report of loud music
**Gweithgareddau Amheus / Suspicious Activities – 1**
1 adroddiad am gerbyd amheus ar fferm / 1 report of a suspicious vehicle on a farm
**Trosedd Byrgleriaeth/Crime Burglary – 1**
1 adroddiad am fyrgleriaeth mewn eiddo preswyl, lle'r aethpwyd ag eitemau personol o annedd preifat / 1 report of residential burglary personal belongings removed from private dwelling
1 adroddiad am gael mynediad i annedd preifat, ni aethpwyd ag unrhyw eitemau / 1 report of entry to private dwelling no items removed

Penderfynwyd y dylai'r clerc ofyn i'r PCSO a fyddai modd iddi nodi ym mha wardiau y cyflawnwyd y troseddau.
It was decided that the clerk ask the PCSO if possible that she could note which ward the crimes were from.

**Personol/Personal**
Estynnwyd croeso cynnes i Eifion Rees ar ôl iddo gael ei gyfethol yn Gynghorydd ar gyfer Ward Tref Llandysul.
A warm welcome was extended to Eifion Rees on being co-opted as Councillor for Llandysul Town Ward.

Estynnodd y Cynghorwyr eu llongyfarchiadau i Gynghorydd Keith Evans ar ei benodiad yn Gadeirydd Cyngor Sir Ceredigion.
Councillors extended their congratulations to Cllr Keith Evans on being appointed Chairman of Ceredigion County Council.

1. **Ethol Cadeirydd:-** Cynigiodd Cynghorydd Keith Evans y dylai Cynghorydd Beth Davies barhau i gyflawni rôl y cadeirydd yn ystod Blwyddyn 2024/25 y Cyngor, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gynghorydd Peter Evans. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. Fel y cadeirydd a etholwyd, diolchodd Cynghorydd Beth Davies i'r Cynghorwyr ac aeth ymlaen i gadeirio'r cyfarfod.

**2.** Llofnodwyd y **Datganiad Derbyn Swydd gan gynnwys y Cod Ymddygiad** gan Gynghorwyr Beth Davies ac Eifion Rees.

**3. Ethol Is-Gadeirydd** Gofynnodd Cynghorydd Beth Davies am enwebiadau am swydd yr Is-Gadeirydd. Cynigiodd Cynghorydd Peter Evans y dylai Cynghorydd Andrew Howell barhau i gyflawni'r rôl, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gynghorydd Douglas Davies. Hysbyswyd y cyfarfod bod Cynghorydd Howell wedi rhoi gwybod i'r Clerc nad oedd yn dymuno cael ei ystyried am y rôl. Cynigiwyd enw Cynghorydd Gethin Jones gan Gynghorydd Peter Evans, eiliwyd y cynnig hwn gan Gynghorydd Heddwen Davies ac fe'i derbyniwyd.

**4. Ethol y Pwyllgor Ymgyngoreion Cynllunio** Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i ethol y Pwyllgor Cynllunio canlynol:- Ward Capel Dewi – Cynghorydd Elen Grantham Ward Tref Llandysul – Cynghorwyr Andrew Howell a Mike Hotson. Ward Tre-groes – Cynghorydd Eileen Curry. Ward Pontsiân – Cynghorydd Gethin Jones. Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig parhaus i'r Clerc ddelio â'r ceisiadau rhwng cyfarfodydd trwy gysylltu â'r aelodau perthnasol.

**5. Ethol Pwyllgor Cyllid** Penderfynwyd ethol y canlynol i'r pwyllgor Cyllid: - Cynghorwyr Beth Davies, Keith Evans, Sue Lloyd a Mike Hotson.

Byddai Cynghorwyr Keith Evans ac Andrew Howell a Douglas Davies yn parhau i gyflawni rôl y llofnodwyr.

**6. Archwilydd Mewnol** Penderfynwyd gofyn i Mr R J Foulkes barhau i gyflawni rôl yr Archwilydd Mewnol.

**7. Rheolaeth Fewnol/Gwiriwr Mewnol:-** Penderfynwyd y bydd Cynghorydd Gethin Jones yn cyflawni'r tasgau Rheolaeth Fewnol/Gwiriwr Mewnol.

**8. Asesiad Risg** Mae camau priodol wedi cael eu cymryd i reoli Rheolaeth Fewnol/Asesiad Risg ac adolygu'r Yswiriant.

**9. Derbyn y Datganiad o Gyfrifon** Cynigiodd Cynghorydd Gethin Jones y dylem dderbyn y Cyfrifon fel cofnod cywir, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gynghorydd Douglas Davies. Cafwyd cytundeb unfrydol ar gyfer y cynnig hwn.

**10.** Cafwyd **ymddiheuriadau** gan Gynghorwyr Elen Grantham, Mike Hotson, Andrew Howell a PCSO Anwen Davies

**11. Datgelu Buddiannau** Atgoffwyd yr holl aelodau o'r ffaith mai eu cyfrifoldeb unigol nhw yw datgan eu budd os trafodir eitem y mae angen iddynt ddatgelu budd yn ei chylch. Atgoffwyd yr aelodau bod Cynghorydd Keith Evans wedi ceisio ac wedi sicrhau goddefeb gan bwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion i siarad a phleidleisio am faterion sy'n ymwneud â Llandysul Pont-Tyweli Ymlaen Cyf, Cymdeithas Chwaraeon Llandysul a Calon Tysul tan 14/11/24. Atgoffwyd yr aelodau hefyd bod modd iddynt wneud cais am a cheisio goddefeb gan bwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion os ydynt yn dymuno. Mynegwyd budd gan Gynghorwyr Beth Davies a Gethin Jones mewn perthynas â'r cais am rodd gan Sioe Llandysul

**12.** Derbyniwyd bod **cofnodion** y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 08 Ebrill 2024 a'r Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2024 yn gywir.

**13. Materion yn Codi:-**

**Cyfarfod Misol 8 Ebrill 2024**

Hysbysfwrdd – mae'r clerc yn aros am ddyfynbris gan ND signs i ddisodli'r tu blaen Persbecs neu acrylig ar yr Hysbysfwrdd yn y Maes Parcio.

2. **Election of Chair:-** Cllr Keith Evans proposed that Cllr Beth Davies remain as chair for the Municipal Year 2024/25 this was seconded by Cllr Peter Evans. There were no other nominations. As the elected chair Cllr Beth Davies thanked the Councillors and took chairing the meeting.

**2. Declaration of Acceptance of Office including the Code of Conduct** was signed by Cllrs Beth Davies and Eifion Rees.

**3. Election of Vice Chair** Cllr Beth Davies requested nominations for the position of Vice-Chair. Cllr Peter Evans proposed Cllr Andrew Howell remain this was seconded by Cllr Douglas Davies. The meeting was advised that Cllr Howell had advised Clerk that he did not wish to be considered for the role. Cllr Gethin Jones was proposed by Cllr Peter Evans and seconded by Cllr Heddwen Davies and carried.

**4. Election of Planning Consultees Committee** It was unanimously resolved to elect the following Planning Committee:- Capel Dewi Ward – Cllr Elen Grantham Llandysul Town Ward – Cllrs Andrew Howell and Mike Hotson. Tregroes Ward - Cllr Eileen Curry. Pontsian Ward – Cllr Gethin Jones. Continued delegated authority was given to the Clerk to deal with the applications between meetings by contacting the relevant members.

**5. Election of Finance Committee** It was resolved to elect the following to the Finance committee: - Cllrs Beth Davies, Keith Evans, Sue Lloyd and Mike Hotson.

Cllrs Keith Evans and Andrew Howell and Douglas Davies would remain as Cheque signatories.

**6. Internal Auditor** It was resolved to ask Mr R J Foulkes to continue as Internal Auditor.

**7. Internal Control/Internal Checker:-** It was resolved that Cllr Gethin Jones undertakes the tasks of Internal Control/Internal Checker.

**8. Risk Assessment** Appropriate steps to manage Internal Control/Risk Assessment and review of Insurance have been taken.

**9. To Receive Statement of Accounts** Cllr Gethin Jones proposed, seconded by Cllr Douglas Davies that we accept the Accounts as a true record. This was unanimously agreed.

**10. Apologies** were received from Cllrs Elen Grantham, Mike Hotson, Andrew Howell and PCSO Anwen Davies

**11. Declarations of Interest** All members were reminded that it was their individual responsibility to declare their interest if discussing an item in which they had a declarable interest. Members were reminded that Cllr Keith Evans had sought and been given dispensation by Ceredigion Ethics and Standards committee to speak and vote on issues appertaining to Llandysul Pont-Tyweli Ymlaen Cyf, Cymdeithas Chwaraeon Llandysul and Calon Tysul until the 14/11/24. Members were also reminded that they could apply and seek dispensation to Ceredigion's Ethics and Standards committee if they so wished. Declarations of interest were provided by Cllrs Beth Davies and Gethin Jones regarding the request for donation from Llandysul Show

**12. Minutes** of the monthly meeting held on 08th April 2024 and Special Meeting held on 22nd April 2024 were accepted as correct.

**13. Matters Arising:-**

**Monthly Meeting 8 April 2024**

Noticeboard - clerk is awaiting a quotation from ND signs to replace the Perspex or acrylic front on the Noticeboard in the Car Park.

Cymdeithas Chwaraeon Llandysul – hysbyswyd y Cynghorwyr gan Gynghorydd Keith Evans o'r ffaith bod y Gymdeithas wedi llwyddo i sicrhau grant o 80% ar gyfer y prosiect £50,000 gan gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, sef Cynnal y Cardi, ac y byddai gofyn cael y swm o £5,000 y gofynnwyd amdano gan y Cyngor Cymuned nawr. Estynnodd yr aelodau eu llongyfarchiadau i'r Gymdeithas ar eu llwyddiant a'r buddsoddiad mewn cyfleusterau yn y gymuned.

Meinciau – gofynnwyd i Rhodri Thomas gwblhau'r gwaith o osod y meinciau cyn cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.

Nacro – byddai'r Cadeirydd, Beth Davies, yn mynychu'r digwyddiad ar 6/6/24 yn Neuadd Tysul ar ran y Cyngor. Bydd y clerc yn ceisio lleoli neu archebu bwrdd hysbysebu newydd ar gyfer y Cyngor Cymuned erbyn y digwyddiad.

**Cyfarfod Arbennig**

Roedd y clerc wedi ymateb i'r Comisiwn Ffiniau gan nodi safbwyntiau'r Cyngor Cymuned. Adroddodd Cynghorydd Keith Evans, er bod y Cyngor Sir wedi ymateb i'r ymgynghoriad, roedd grŵp annibynnol yr awdurdod yn teimlo nad oedd yn adlewyrchu anghenion y cynghorau mwy gwledig yn ddigonol, ac roedd wedi ysgrifennu ar wahân i'r Comisiwn.

**14 Rhoddion**

**Canolfan Ceufadu Llandysul Paddlers** – Cais am rodd o £2000 er mwyn cynorthwyo i ariannu'r ŵyl afon 4 diwrnod yn Llandysul. Penderfynwyd rhoi £1000

**Sioe Llandysul** – Ar ôl datgelu eu budd, gadawodd Cynghorwyr Beth Davies a Gethin Jones y cyfarfod wrth i'r cais gael ei ystyried. Cafwyd llythyr yn ceisio rhodd ariannol ar gyfer pabell cynnyrch mawr lle y byddai unigolion yn dangos eu cynnyrch. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano, sef £1000.

**Hahav** – Cafwyd cais am rodd gan Hahav.
Roedd y Cynghorwyr wedi cael gwybodaeth bellach am y gwasanaethau a ddarparwyd i unigolion yn ardal y Cyngor Cymuned. Penderfynwyd rhoi £50 tuag at y prosiect.

**Gŵyl Gerdded Llandysul a'r Fro** – Datgelwyd budd gan Gynghorydd Beth Davies yn y cais a gadawodd y cyfarfod tra bod y mater yn cael ei ystyried. Cafwyd cais am rodd o £600 er mwyn cynorthwyo i redeg yr Ŵyl Gerdded. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano.

**Fforwyr Kākâpō** – Cafwyd gwybodaeth bellach am y gymdeithas. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano, sef £200

**15 Gohebiaeth**

Cafwyd y canlynol gan **Geredigion:-**.
Cafwyd hysbysiad talu a oedd yn cadarnhau bod taliad rhannol o'r praesept wedi cael ei drosglwyddo i gyfrif Banc y Cyngor Cymuned ar 30 Ebrill 2024, sef y swm o £16912.38.

Roedd Pwyllgor Carnifal Llandysul wedi anfon neges e-bost yn gofyn a fyddai modd troi'r goleuadau addurniadol ymlaen yn ystod wythnos Carnifal 2024. Penderfynwyd caniatáu'r cais.

**Negeseuon e-bost** – Cyflwynwyd rhestr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerc ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 8 Ebrill 2024 ac 20 Mai 2024.

Cafwyd copi o gylchgrawn The Clerk.

Cymdeithas Chwaraeon Llandysul – Cllr Keith Evans informed Councillors that Cymdeithas had been successful in securing n 80% grant for the £50k project from Cynnal y Cardi Uk Shared Prosperity fund and that the request for £5K from the Community Council would now be required. Members congratulated Cymdeithas on their success and the investment in facilities in the community.

Benches- Rhodri Thomas has been requested to complete the installation of the benches before the next meeting of Community Council.

Nacro – Chairman Beth Davies would be attending the event on 6/6/24 at Tysul Hall on behalf of the Council. The clerk to try and locate or place an order for a new Community Council's pop-ups in readiness for the event.

**Special Meeting**

The clerk had responded to the Boundary Commission with the views of the Community Council. Cllr Keith Evans reported that although that there had been a response from the County Council to the consultation, the independent group on the authority felt that it didn't adequately reflect the needs of the more rural councils and had written separately to the Commission.

**14 Donations**

**Llandysul Paddlers Canoe Centre** – A request for a donation of £2000 to assist with funding the 4 day river festival in Llandysul. It was decided to donate £1000

**Llandysul Show**– Having declared their interest Cllrs Beth Davies and Gethin Jones left the meeting during consideration of the request. A letter seeking a donation with funding a large produce tent for individuals' to display their produce. It was decided to donate the requested amount of £1000 .

**Hahav** – A request for donation was received from Hahav.
Councillors had received further information regarding the services that had been provided to individuals within the Community Council area. It was decided to donate £50 towards the project.

**Gwyl Gerdded Llandysul a'r Fro** – Cllr Beth Davies declared an interest in the application and withdrew from the meeting during consideration of the matter. A request for a donation of £600 was requested to assist with the running of the Walking Festival. It was decided to donate the requested amount.

**Fforwyr Kākâpō** – Further information had been received with regards to the association. It was decided to donate the requested amount of £200

**15 Correspondence**

The following were received from **Ceredigion:-**.
Remittance advice was received confirming that part payment of the precept had been transferred to the Community Council's Bank account on 30 April 2024 in the sum of £16912.38.

Llandysul Carnival Committee had sent an email asking that the decorative lights be turned on for the 2024 Carnival week. It was decided to allow the request.

**Anfonebau**

Darparwyd gwybodaeth a derbyniwyd y dylid ysgrifennu sieciau i dalu

Llinos Jones – Cafwyd anfoneb am y swm o £109.03 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Ebrill a derbyniwyd y dylid ei thalu.

**16 Materion Wardiau**

**Llandysul**

Mynegwyd pryder gan Gynghorydd Heddwen Davies am y ffaith mai dim ond un bws sy'n cynnig gwasanaeth rhwng Llandysul a Chaerfyrddin. Bydd y clerc yn cysylltu â'r feddygfa leol i weld a ydynt wedi gweld cynnydd yn nifer y meddygon sy'n gorfod gwneud ymweliadau cartref oherwydd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae angen trwsio'r fainc wrth y fynedfa i'r Ffawydd. Bydd y clerc yn cysylltu â Rhodri Thomas.

**Tre-groes/Pren-gwyn/Capel Dewi**

Bydd y clerc yn adrodd am y canlynol i'r Cyngor Sir unwaith eto

Y ffordd i Alphabeds – Capel Dewi

Bolardiau Horeb – y goleuadau ddim yn gweithio

Tyllau yn y ffordd ger Nantycastell – Pontsiân

Dŵr ar y ffordd ger Penrhiw Capel Dewi

Glan Cletwr – Pontsiân – clawdd sydd wedi tyfu'n wyllt

Y ffordd ger Dolwallter – Capel Dewi – mae angen ei thrwsio eto

**17. Lle Chwarae Plant Llandysul** Hysbyswyd y Cynghorwyr gan y clerc y byddai ROSPA yn archwilio'r Parc ym mis Mehefin. Mae gofyn cael tri sbring ar gyfer y 3 gât hunan-gau i gerddwyr sy'n arwain at y lle chwarae i blant. Penderfynwyd archebu un sbring a gofyn i Rhodri Thomas gwblhau'r gwaith. Os bydd hyn yn llwyddiannus, bydd angen trwsio'r ddwy gât arall hefyd.

18. **Sedd Wag** Mae un sedd wag yn Ward Tref Llandysul o hyd.

**19 Plannu**

Bydd y clerc yn cysylltu â Chynghorydd Andrew Howell am arweiniad pellach ynghylch pryd y bydd y chwynnu/plannu yn cael ei wneud, gan ystyried bod gan y Cyngor weithdrefn a fabwysiadwyd ynghylch yr amseriad a'r planhigion gofynnol ac ati, ynghyd ag amserlen a lleoliadau'r holl ddysglau a'r tybiau plannu.

**20 Adroddiad gan Gynghorwyr Sir**

Cafwyd adroddiad manwl gan Gynghorydd Keith Evans yn rhestru'r holl ddigwyddiadau/cyfarfodydd yr oedd wedi eu mynychu yn ystod y mis blaenorol. Cafwyd adroddiad llafar gan Gynghorydd Maldwyn Lewis.

**21. Lwfans y Cadeirydd** Penderfynwyd y dylai swm y lwfans aros yr un peth, sef £300.

**22 Cyflog y Clerc** – Roedd y Clerc wedi cyrraedd y pwynt uchaf ar y golofn gyflog.

**23. Deunydd ysgrifennu** Penderfynwyd y gall y Clerc brynu'r deunydd ysgrifennu a'r inc angenrheidiol heb orfod sicrhau cytundeb y Cyngor ymlaen llaw, ond y dylai adrodd am unrhyw weithgarwch o'r fath yn ystod cyfarfod nesaf y Cyngor.

**24. Cynllunio**

Ni chafwyd unrhyw geisiadau.

**E-mails** –A list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 8th April 2024 – 20 May 2024 was tabled.

A copy of the Clerk magazine was received.

**Invoices**

Information provided and cheques passed for payment

Llinos Jones – Invoice for April translation was received for the sum of £109.03 and passed for payment.

**16 Ward Matters**

**Llandysul**

Cllr Heddwen Davies expressed her concern that there was only one bus connecting Llandysul to Carmarthen. The clerk to contact the local surgery to see if they had seen an increase in doctors having to do house visits due to lack of public transport.

The bench on the entrance of the Beeches needs repairing. The clerk to contact Rhodri Thomas.

**Tregroes/Prengwyn/Capel Dewi**

The clerk to report the following again to the County Countil

Road leading to Alphabeds – Capel Dewi

Horeb bollards – lights not working

Potholes by Nantycastell – Pontsian

Water on the road by Penrhiw Capel Dewi

Glan Cletwr – Pontsian – overgrown hedge

Road by Dolwallter – Capel Dewi – needs repairing again

**17. Llandysul Children's Playarea** The clerk informed the Councillors that ROSPA would be inspecting the Park in June. Three springs were required for the 3 pedestrian self-closing gates leading to the children's play area. It was decided to order one replacement spring and to request Rhodri Thomas to replace. If this was successful, the other two gates needed to be repaired also.

18. **Vacant Seat** There is still one vacant seat on the Llandysul Town Ward.

**19 Planting**

The clerk contact Cllr Andrew Howell for further guidance in relation to when the weeding/planting would be taking place and to consider that Council had an adopted procedure re timings and the plants required etc along with a schedule and locations of all the planters and tubs.

**20 Report by County Councillors**

A detailed report was received from Cllr Keith Evans listing all events/meetings that he had attended in the previous month. Cllr Maldwyn Lewis gave a verbal report.

**21. Chair's Allowance** It was decided that the allowance should remain at £300.

**22 Clerk's Salary** – The Clerk had reached the top of the spinal point,

**23. Stationery** It was resolved that the Clerk could purchase necessary stationery and ink without prior agreement of Council but to report any such action to the next available meeting of Council.

**24. Planning**

No applications had been received.

**Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques**:

Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/
Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

| | | £ c/£ p | |
|---|---|---|---|
| Llinos Jones | Cyfieithu/Translation | 109.03 | 001236 |
| Nacro | Rhodd/ Donation | 540.00 | 001237 |
| Nia Davies | Clerc/Clerk Wages | 577.40 | 001128 |
| HMRC | Cyflog y Clerc/Clerk Wages | 144.60 | 001239 |
| Nia Davies | Clerc/Clerk Wages Backpay | 216.41 | 011240 |
| HMRC | Cyflog y Clerc/Clerk Wages | 56.32 | 001241 |
| Llandysul Paddlers | Rhodd Donation | 1000.00 | 001242 |
| Gwyl Gerdded | Rhodd/Donation | 600.00 | 001243 |
| Sioe Llandysul | Rhodd/Donation | 1000.00 | 001244 |
| Hahav | Rhodd/Donation | 500.00 | 001245 |
| Ffowrwyr Kakapo | Rhodd/Donation | 200,00 | 001246 |